



Ein cyf/Our ref: qA950160

Ian Llewelyn
Rheolwr Rhag-Gynllunio
Cyngor Sir Caerfyrddin
8 Spilman Street
Caerfyrddin
SA31 1JY

28 Mehefin 2018

Annwyl Ian,

**Cyngor Sir Caerfyrddin: Cynllun Newydd Cyntaf y Cytundeb Darparu
Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru)
(Diwygio) 2015**

Diolch ichi am eich e-bost dyddiedig 28 Mehefin, yn gofyn i Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig gymeradwyo amserlen arfaethedig Cytundeb Darparu'ch Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) newydd. Mae'r Cytundeb Darparu yn deillio o broses adolygu'ch Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) (Rheoliad 41) a gafodd ei fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2014.

Un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru yw cynnal system gynllunio fodern sy'n seiliedig ar ganlyniadau cynllunio a chynlluniau y gellir eu cyflawni. Yn unol â'r Llawlyfr ar Gynlluniau Datblygu Lleol (paragraff 10.2.5), dylid llunio cynllun newydd mewn llawer llai na 4 blynedd. Ysgrifennodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig at eich awdurdod ar 29 Mawrth 2018 i ofyn iddo lunio CDLIau ymhen 3.5 blynedd ar ôl i'r broses ddechrau'n swyddogol, gydag un cyfnod ychwanegol o 3 mis os bydd angen.

Mae ar bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru ddyletswydd i lunio CDLI. Mae CDLI hefyd yn adnodd corfforaethol sy'n nodi blaenoriaethau yr Awdurdod Cynllunio Lleol o ran defnyddio tir wrth ymdrin â materion lleol a chenedlaethol. Felly, mae'r Cytundeb Darparu'n ymrwymo i gynnal y dyletswyddau allweddol hyn. Bydd angen rheoli prosiectau'n effeithiol a chael adnoddau priodol er mwyn sicrhau na fydd angen mwy na'r 3 mis ychwanegol a bod modd mabwysiadu'r cynllun yn unol â'r Cytundeb Darparu arfaethedig.

Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar am y gwaith a wnaed hyd yn hyn ar y broses adolygu ac mae'n croesawu'r ffaith bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i lunio

cynllun newydd. Mae'ch Cytundeb Darparu yn nodi y caiff y cynllun newydd ei fabwysiadu ym mis Rhagfyr 2021 a bydd cyfnod ychwanegol o 3 mis os bydd angen. Rydym yn croesawu'ch ymateb cadarnhaol i ddisgwyliadau Ysgrifennydd y Cabinet, ac yn arbennig ymrwymiad eich Cyngor i ddarparu'r holl adnoddau ar gyfer y cynllun o ran cyllid a staff.

Felly, ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, rwy'n gallu cymeradwyo'ch amserlen yn unol ag adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015.

Dylech sicrhau bellach bod fersiwn derfynol eich Cytundeb Darparu ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn rheoliad 10. Nodwch, yn ogystal â chadw at ofynion y rheoliadau, y dylech anfon un copi caled o'r cytundeb i Is -adran Gynllunio Llywodraeth Cymru.

Yn gywir,



Mark Newey
Pennaeth y Gangen Cynlluniau
Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Drwy e-bost a'r ffôn